Chi a'ch Ci
yng nghefn gwlad



Ffyrdd gwych o grwydro, mwynhau a gofalu am gefn gwlad yng nghwmni'ch ci

© Mandy Wakins, CCGC

Côd Cefn Gwlad Countryside Code

Parchu • Gwarchod • Mwynhau

THE KENNEL CLUB

Sponsored by Welsh Assembly Government

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Manylion eich ci

"Mae hyd yn oed cŵn fatha fi'n gallu mynd ar goll weithiau"

Dylai ymweliad â chefn gwlad fod yn bleserus ac yn ddidrafferth i chi a'ch ci. Serch hynny, bob blwyddyn, bydd llawer iawn o gŵn yn mynd ar goll, gallant fynd yn sownd, gael eu dychryn gan synau uchel, eu brifo mewn damweiniau ffyrdd, neu hyd yn oed eu dwyn.

Er mwyn cael eich ci'n ôl cyn gynted ag y bo modd, llenwch ei fanylion isod a chadwch y llyfryn yma gyda chi.

Enw'r ci:

Dyddiad geni:

Rhyw: ci/ gast:

Brid:

Rhif microsglodyn:

Rhif tatŵ a lleoliad:

llun eich ci

Marciau gwahaniaethol:

Unrhyw feddyginiaeth neu alergedd:

Rhifau ffôn:

Milfeddyg:

Warden cŵn:

Heddlu:

RSPCA: 0870 55 55 999

Petlog: 0870 606 6751

Manylion yswiriant y ci:

Enw'r perchennog:

Cyfeiriad y perchennog:

Person arall i gysylltu â nhw mewn argyfwng

Enw:

Rhif ffôn

I helpu cadw'ch ci rhag mynd ar goll am byth:

- peidiwch byth â gadael iddo/i fynd o'ch golwg pan fyddwch yn mynd am dro
- dylech ei hyfforddi i ddod yn ôl yn syth wrth gael ei alw
- gwnewch yn siŵr ei fod bob amser yn gwisgo coler sy'n dangos eich enw, cyfeiriad a, gorau oll, rif ffôn symudol
- dylai gael microsglodyn gan gofrestru'r manylion yng nghronfa ddata Petlog y Kennel Club.
- dylech newid eich manylion cyswllt â Petlog ac ar goler eich ci, os byddwch yn symud i fyw neu'n mynd i ffwrdd ar eich gwyliau



Cyflwyniad

"Heia! Fi ydi Guto'r ci a dwi wrth fy modd hefo cefn gwlad. Mi wna i'ch arwain chwi trwy'r daflen yma i'ch helpu i gael lot o hwyl trwy fod yn gyfrifol gyda'ch ci yng nghefn gwlad, ac i'ch helpu i warchod y dirwedd, bywyd gwyllt a'r bobol sy'n gwneud i gefn gwlad fod yn lle mor arbennig."

P'un ai byddwch chi'n ymlwybro ar hyd rhyw lon goed, yn crwydro coedwigoedd, neu'n anturio i'r tir mynediad newydd, mae cefn gwlad yn lle gwych i chi a'ch ci i grwydro ac i'w fwynhau.

Chwe cham i gerdded â'ch ci'n ddidrafferth trwy ddilyn y Cod Cefn Gwlad

- Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i chi reoli'ch ci, a'i rwystro rhag dychryn neu darfu ar anifeiliaid fferm a bywyd gwyllt. Yn y cyfnod rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf, rhaid i chi gadw'ch ci ar dennyn byr pan fyddwch chi ar dir agored a thir comin. Rhaid gwneud hynny hefyd gydol y flwyddyn pan fyddwch chi'n agos at anifeiliaid fferm.
- Cyn belled â'ch bod chi'n cadw'ch ci dan reolaeth dynn, does dim rhaid i chi ei roi ar dennyn ar lwybrau cyhoeddus. Ond, fel rheol gyffredinol, mae'n well ei gadw ar dennyn os dydych chi ddim yn gallu dibynnu arno i fod yn ufudd. Yn ôl y gyfraith, mae gan ffermwyr yr hawl i ddifa cŵn sy'n anafu neu'n poeni'u hanifeiliaid.
- Os yw anifail fferm yn rhedeg ar eich ôl, mae'n fwy diogel i chi adael eich ci oddi ar ei dennyn. Peidiwch â pheryglu'ch hun trwy geisio amddiffyn y ci.
- Byddwch yn arbennig o ofalus i rwystro'ch ci rhag dychryn defaid ac ŵyn. Peidiwch â gadael iddo grwydro i fannau lle y gallai darfu ar adar sy'n nythu ar y ddaear neu fywyd gwyllt arall. Heb gael eu hamddiffyn gan eu rhieni, mae wyau ac anifeiliaid ifanc yn marw'n fuan.
- Mae pawb yn gwybod mor annymunol yw baw ci. Mae hefyd yn gallu lledaenu heintiau. Felly, gofalwch eich bod chi'n glanhau ar ôl eich ci bob tro, a'ch bod chi'n cael gwared â'r baw mewn ffordd gyfrifol. Gofalwch hefyd fod eich ci'n cael triniaeth reolaidd ar gyfer llyngyr.
- Ar rai adegau, fydd cŵn ddim yn cael mynd i rai rhannau o dir agored, neu efallai y bydd yn rhaid cadw'r ci ar dennyn. Dilynwch unrhyw arwyddion. Fe gewch chi ragor o wybodaeth am y rheolau yma ar www.ccw.gov.uk, neu drwy ffonio Llinell Ymholiadau Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar 0845 130 6229.

Ble bynnag yr ewch chi, bydd y camau hyn yn helpu i gadw'ch ci'n ddiogel, i warchod yr amgylchedd ac i ddangos eich bod yn berchennog ci cyfrifol.

Ble gellwch chi fynd â'ch ci

"O gerdded ar hyd y traeth i grwydro dros gopaon y bryniau, mae yna filoedd o filltiroedd o lwybrau ar draws cefn gwlad agored i chi eu mwynhau yng nghwmni'ch ci, ar yr amod eich bod yn ei gadw mewn golwg ac yn ei reoli'n dynn ar dennyn".

Llwybrau cyhoeddus

Ar draws cefn gwlad o lan y môr i ben y mynydd, mae llwybrau cyhoeddus, llwybrau ceffylau a chilffyrdd sy'n cynnig miloedd o filltiroedd o lwybrau a lonydd lle y gellwch gerdded â'ch ci.

Yn aml, dangosir y llwybrau hyn gan arwyddion swyddogol wrth ochr y ffordd a saethau lliw fel y rhain ar hyd y ffordd:

- llwybrau cyhoeddus i gerddwyr
- llwybr ceffylau cyhoeddus – i gerddwyr, marchogion a seiclwyr
- cilffordd gyhoeddus – i'r uchod i gyd, a cherbydau trawsgwlad

Mae cynghorau lleol a thirfeddianwyr yn cydweithio â'i gilydd i sicrhau y gellwch ddefnyddio'r holl lwybrau hyn, yn ogystal â gwneud yn siŵr nad ydynt wedi mynd yn anodd neu'n beryglus i'w defnyddio. Mae'r gyfraith yn diogelu'ch hawl i gerdded y llwybrau hyn gan ofyn i chi gymryd camau syml i atal niwed i fywyd gwyllt, anifeiliaid fferm a phobl eraill, felly dilynwch y Cod Cefn Gwlad bob amser.

Tir Agored

Ers 2005 yng Nghymru a 2004 yn Lloegr, mae deddfwriaeth newydd wedi agor tiroedd newydd i gerddwyr â chŵn ar draws mynyddoedd, rhostiroedd, a downdiroedd a thir comin cofrestredig sy'n cael ei adnabod fel 'tir mynediad'. Mae rhain bellach yn cael eu dangos ar fapiau Explorer yr Arolwg Ordnans ac ar fapiau arbennig yn ccw.gov.uk/countrysideaccesswales. Maent hefyd yn cael eu dynodi yng nghefn gwlad gan y symbol.

Ardaloedd tir agored yn aml yw rhai o'r mannau mwyaf tangnefeddus yng nghefn gwlad a chynhelir ei harddwch 'gwyllt' gan y rheini sy'n rheoli'r tir ar gyfer eu bywoliaeth. Mae'n bwysig tu hwnt i barchu'r rheini sy'n gweithio yng nghefn gwlad gan ddiogelu amgylchedd unigryw a bywyd gwyllt prin sy'n cael ei gynnal ganddynt at yr oesoedd a ddêl.

O ddechrau'r gwanwyn tan ddiwedd yr haf, mae'r adar sy'n brin yn rhyngwladol ac sy'n nythu yn yr ardaloedd hyn yn agored i gael eu niweidio oherwydd bod perygl y byddant yn hedfan ymaith hyd yn oed os bydd unigolyn neu gi sy'n ymddwyn yn hollol ddi-fai'n dod yn agos at eu nythod ar y ddaear. Os bydd yr adar yn cael eu dychryn ymaith, gallai eu hwyau neu'r cywion sydd newydd eu deor gael eu datgelu a gallant farw, neu gael eu bwyta



© CCGC, Geraint Llywelyn

gan anifeiliaid ac adar eraill. Mae rhywogaethau adar eraill ar eu mwyaf sensitif yn ystod y gaeaf pryd y byddant yn clwydo ar y ddaear oherwydd gallant fynd yn lluddedig gan farw os amherir arnyn nhw'n aml.

Am y rheswm yma, mae'n hollbwysig bod cŵn a phobl yn cadw'n agos at ei gilydd. Bydd cadw ar y llwybrau a'r lonydd sydd yno eisoes a pharchu arwyddion lleol, yn helpu lleihau unrhyw aflonyddu. Ar dir mynediad, mae'r gyfraith yn gofyn bod:

- cŵn yn cael eu cadw ar dennyn sydd heb fod yn hirach na 2 fetr pan fydd adar yn nythu rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf
- bydd cŵn hefyd yn cael eu cadw ar dennyn heb fod yn hirach na 2 fetr yn agos at anifeiliaid fferm

I ddiogelu bywyd gwyllt sensitif ac anifeiliaid fferm, gall cyfyngiadau lleol mewn rhai ardaloedd wahardd cerddwyr a'u cŵn o ardaloedd tir agored am ychydig ddyddiau neu bob blwyddyn ar rostiroedd grugieir. Nid yw hyn yn cyfyngu ar eich mynediad ar hyd unrhyw lwybrau cyhoeddus cyfagos.

Mewn ardaloedd eraill, gall fod rhwystrau swyddogol i helpu rheoli'r tir, i'ch diogelu neu i atal tanau, er, unwaith eto, ni fydd y rhain yn cyfyngu ar eich mynediad ar hyd llwybrau cyhoeddus cyfagos.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynllunio ymlaen rhag cael eich siomi os bydd eich hoff daith gerdded yn cael ei rhwystro. Gellir gweld y cyfyngiadau ar y mapiau yn ccw.gov.uk/countrysideaccesswales a byddant yn cael eu dynodi gan arwyddion swyddogol yng nghefn gwlad.

Mynediad arall

Ceir llawer iawn o ardaloedd lle y gellwch gerdded â'ch ci megis parciau gwledig, gofodau gwyrdd a llwybrau seiclo. Ceir traethau, coetir y Comisiwn Coedwigaeth a chytundebau lleol lle mae'r Llywodraeth a chynghorau lleol yn helpu ffermwyr i ddarparu llwybrau ychwanegol.

©Dean Janes, PhotlibraryWales

©David Hosking, FLPA

©Rex Moreton, PhotlibraryWales

Beth os bydda i'n mynd â'r ci lle na ddylai fynd?

Gan ddibynnu ar ble'r ydych chi, os byddwch yn gwneud hyn yn fwriadol neu'n anwybyddu'r arwyddion swyddogol, yn y tymor byr, gellir gofyn i chi adael yr ardal ac efallai cewch eich cosbi. Yn y tymor hir, gallai hyn arwain at fwy o gyfyngiadau ar bob perchennog ci.

Beth os bydd fy nghi'n hel da byw?

Greddf naturiol ci yw hel pethau, ond gall hyn peri gofid difrifol, niwed a hyd yn oed farwolaeth i'r anifeiliaid dan sylw – gan gynnwys eich ci. Mewn rhai achosion, mae gan ffermwyr yr hawl i saethu a lladd ci sy'n amharu ar eu da byw. I fod yn ddiogel, cadwch lygad ar beth sydd o'ch blaen, a'r ci ar dennyn pryd bynnag y gall da byw fod o gwmpas.

Beth os bydd fy nghi'n amharu ar neu'n hel bywyd gwyllt?

Unwaith eto, gall y canlyniadau fod yn ddifrifol i'r anifeiliaid dan sylw gan beryglu cynlluniau sy'n helpu diogelu bywyd gwyllt sy'n Agored i newid. Mae hefyd yn drosedd i aflonyddu ar adar sy'n cael eu gwarchod yn arbennig, felly, cymerwch ofal i gadw'ch ci ar dennyn neu o dan reolaeth dynn mewn ardaloedd sensitif. Dylech barchu arwyddion swyddogion sy'n cyfyngu ar fynediad yng nghwmni'ch ci.

Beth os bydd anifail fferm yn fy hel i a'r ci?

Gall hyn ddigwydd weithiau, os bydd rhai ifainc yn dilyn yr anifeiliaid, neu os yw cŵn wedi amharu arnyn nhw yn y gorffennol. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n fwy diogel i adael eich ci oddi ar y tennyn iddo gael ffoi ac i dynnu sylw'r anifail fferm oddi wrthych chi. Peidiwch â mentro cael niwed trwy geisio diogelu'ch ci.



Dwi wedi holi ymlaen llaw ac mae cyfyngiadau'n golygu na chaf i fynd â'r ci ar fy hoff daith gerdded ar draws y rhos heddiw – beth fedra i 'i wneud?

Gallech weld os oes modd dargyfeirio o gwmpas yr ardal gyfyngedig gan ddefnyddio llwybrau cyhoeddus. Fodd bynnag, os mai adeg sensitif yw hon i adar sy'n nythu, efallai y byddwch chi a'ch ci'n cael gwell hwyl arni'n crwydro rywle arall, fel coetir y Comisiwn Coedwigaeth.

Sut fedra i atal y ci rhag tynnu ar y tennyn?

Mae dulliau hyfforddi ac offer modern yn [illegible] golygu y gall cŵn gael eu hyfforddi i beidio â thynnu ar y tennyn heb fod yn greulon neu heb gyfyngu ar eu rhyddid a'u hwyl. Oherwydd cynta i gyd y dechreuwch chi hawsaf i gyd fydd hi!

Mae gen i gi cymorth sydd wedi'i gofrestru'n swyddogol – a oes rheolau arbennig yn berthnasol?

Mae deddfwriaeth ddiweddar yn ceisio sicrhau na fydd camwahaniaethu'n erbyn pobl sydd ag anableddau. Ni ddylai unrhyw waharddiadau neu gyfyngiadau sy'n effeithio ar gŵn rwystro mynediad yn afresymol i ddefnyddwyr cŵn cymorth. Os byddwch yn dod ar draws problem, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol neu'r Kennel Club.

Teithio gyda'ch ci

"P'un ai ydych chi'n dechrau ar eich gwyliau, yn mynd at eich hoff lecyn i gerdded, neu hyd yn oed yn symud i fyw, ryden ni, y cŵn, wrth ein boddau'n cael teithio i weld ac i glywed golygfeydd ac arogleuon newydd! Dyma sut i'n cadw ni'n ddiogel ac yn ddiddig ar y ffordd."

Yn y car

Wrth ei throi hi am gefn gwlad, ceisiwch ddefnyddio cludiant cyhoeddus – mae'r rhan fwyaf yn caniatáu cŵn ar eu bwrdd. Ar gyfer yr adegau pan nad yw hyn yn ymarferol, gwnewch yn siŵr:

- bod gan eich ci le diogel i eistedd yn eich car. Bydd hyn yn golygu na fydd fawr o berygl i sylw'r gyrrwr gael ei dynnu, i'r ci gael niwed neu'i daflu o'r cerbyd os bydd damwain;
- bod eich ci'n gwisgo coler a thag adnabod yn y car rhag iddo redeg i ffwrdd yn sgil damwain;
- eich bod yn stopio mewn man diogel bob ychydig oriau i roi diod ac ymarfer i'ch ci ar dennyn;

Gall cŵn sy'n cael eu gadael mewn ceir ar ddiwrnod gweddol heulog hyd yn oed farw'n gyflym o drawiad gwres. Os oes rhaid i chi ei adael, parciwch yn y cysgod, gwnewch yn siŵr bod ganddo ddigon o aer a dŵr, a chadwch lygad arno'n rheolaidd.

Yn gynyddol, mae cŵn yn cael eu dwyn o geir a gallai digwyddiadau annisgwyl y tu allan i'r car ei ddychryn. Os oes amheuaeth, peidiwch â gadael eich ci.

Mae Cynllun Hyfforddi Cŵn Dinesydd Da y Kennel Club yn ymdrin â theithio'n ddiogel braf gyda'ch ci.

Aros i ffwrdd

Gall fynd â'ch ci ar wyliau gyda chi fod cymaint o hwyl i chi ag y mae i'ch ci. Dyma rai awgrymiadau:.

- bydd llawer iawn o fannau'n croesawu cŵn sy'n ymddwyn yn dda, ond dylech bob amser wneud yn siŵr ymlaen llaw rhag cael eich siomi. Mae gan elusen yr Ymddiriedolaeth Gŵn gronfa ddata ar ei gwefan lle y gellwch gael hyd i leoedd cymeradwyedig i aros sy'n gyfeillgar i gŵn.
- dylech ddiweddaru'r wybodaeth ar goler eich ci gan hysbysu cofrestr Petlog os oes microsglodyn gan eich ci, fel y gellir ei ddychwelyd i'ch cyfeiriad dros dro, os bydd yn mynd ar goll. Mae'n syniad da i roi rhif ffôn symudol.
- Dylech ddarganfod manylion y milfeddyg lleol a warden cŵn rhag ofn i'r annisgwyl ddigwydd. Bydd gan Ganolfannau Croeso lleol fanylion yn yr un modd â rhai gwefannau.
- Ewch â bwyd arferol eich ci â chi, oherwydd efallai na fydd ar gael lle y byddwch yn aros.

© Mandy Wakins,CCGC

Cadwch ein bywyd gwyllt yn ddiogel ac yn

'Mae yna beth wmbreth o bethau y gellwch eu gwneud i helpu diogelu'r amgylchedd a'i gadw'n ddiogel i bawb gael ei fwynhau. Gellwch chi a'ch ci wneud gwir wahaniaeth... dyma sut."

Gall hyd yn oed cŵn clên sy'n ymddwyn yn dda ddychryn adar ac anifeiliaid eraill i ffwrdd o'u rhai ifainc. O ganlyniad, gallai eu hwyau neu'u cywion sydd newydd eu deor oeri a gallent farw neu gael eu bwyta gan anifeiliaid ac adar eraill.

- Gwnewch yn siŵr na fydd eich ci'n hel unrhyw fywyd gwyllt. Gall hyn achosi niwed a gofid i'r bywyd gwyllt a'ch ci fel ei gilydd, yn enwedig os bydd eich ci'n mynd ar goll, yn sownd i lawr twll neu'n rhedeg ar draws y ffordd fawr;
- Cadwch eich ci'n agos atoch fel na fydd yn gallu ffroeni neu ddychryn adar nythu yn ystod y gwanwyn ac yn gynnar yn yr haf. Cadwch eich ci ar dennyn byr mewn tir agored rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf;
- Mae adar prin eraill ar eu mwyaf sensitif yn ystod y gaeaf pryd y byddant yn clwydo ar y ddaear gan y gallant fynd yn lluddedig a marw os bydd rhywbeth yn amharu arnyn nhw'n aml;
- Dilynwch arwyddion swyddogol a chyngor mewn ardaloedd lle y ceir bywyd gwyllt sensitif;
- Dylech lanhau unrhyw faw ci. Gall effeithio ar fathau arbennig o bridd sydd eu hangen ar blanhigion prin i oroesi;
- Rhwystrwch eich ci rhag codi planhigion a choed ifanc.

Cefnogi'r bobl sy'n rheoli cefn gwlad

Gellwch chi a'ch ci helpu ffermwyr i gadw eu hanifeiliaid yn ddiddig, yn ddiogel ac yn iach, os byddwch

- yn gwneud yn siŵr bod eich ci'n cael ei drin am lyngyr bob tri mis, i ddiogelu'i iechyd ei hun ac iechyd pob anifail arall a'ch teulu. Gall eich milfeddyg awgrymu cynhyrchion addas;
- cadw'ch ci ar dennyn yn agos at anifeiliaid fferm, i atal niwed iddyn nhw ac i'ch ci;
- bod yn hynod ofalus lle y ceir ŵyn ac anifeiliaid fferm ifainc eraill o gwmpas. Gall cael eu hel gan gi ladd anifeiliaid ifainc a rhai sydd heb eu geni, felly rhowch ddigon o le iddyn nhw. Hefyd, mae'ch ci'n fwy tebygol o gael ei ymosod arno gan riant anifeiliaid ar yr adeg yma.
- bob amser yn cario rhaw faw â chi a chodwch unrhyw faw ar ôl eich ci. Dylech fynd â'r baw – ac unrhyw sbwriel arall – i ffwrdd â chi nes cyrraedd bin sbwriel, hyd yn oed os yw hyn yn golygu defnyddio'ch bin lludw gartref.

©Janet & Colin Beard, PhotlibraryWales

© CCGC, Paul Brazier

Helpwch bobl i weld y gorau yn eich ci

Gall rhai pobl deimlo'n anghyfforddus os bydd hyd yn oed yr anifail cleniaf sy'n ysgwyd ei gynffon yn ddi-baid yn dod atyn nhw. Gall hyd yn oed un profiad gwael beri i bobl, ac yn enwedig plant – ofni cŵn am weddill eu bywydau. Gellwch helpu pobl i weld y gorau yn eich ci trwy

You can help people see the best in your dog by:

- lanhau baw'ch ci. Gall baw ci achosi heintiau mewn pobl ac anifeiliaid eraill.
- gadw llygad yn agored am bobl ar gefn ceffyl, seiclwyr a loncwyr. Gallant godi braw ar eich ci – neu gall eich ci eu dychryn nhw – gan achosi niwed neu ddamwain. Felly, mae'n fwy diogel i roi'r ci ar dennyn wrth iddyn nhw ddod heibio;
- beidio â gadael iddo fynd at bobl eraill na'u cŵn hyd nes y byddwch yn siŵr eu bod yn hapus am hyn;
- bod yn arbennig o ofalus o gwmpas plant. Gall cŵn gamddeall eu lleisiau uchel a'u symudiadau herciog, gan neidio i fyny neu geisio chwarae – gall hyn fod yn frawychus iawn i blant bach.
- gwneud yn siŵr bod plant bob amser yn gofyn cyn dweud "helô" neu roi unrhyw fwythau i gi, fel nad ydynt yn ei ddychryn yn ddamweiniol, gan y gall ci wedyn geisio amddiffyn ei hun;
- sicrhau bod gennych yswiriant trydydd parti rhag ofn i'ch ci niweidio rhywun neu achosi damwain neu ddifrod. Gellwch gael eich erlyn os bydd rhywun yn cwyno am eich ci'n eu brifo neu fod allan o reolaeth ac yn beryglus. Os ceir y ci'n euog, gall y llysoedd eich gwahardd rhag cadw cŵn gan orchymyn iddo gael ei ddifa.



©Steve Peake, PhotlibraryWales

Yn hapus ac yn iach – chi a'ch ci

"T'yd! awê!" Ia, wir, does 'na ddim byd tebyg i ysgwyd y gynffon a gwneud llygaid llo wrth i chi godi'r tennyn i fynd am dro. Hyd yn oed ar y diwrnodau mwya diflas"

© CCGC, Linda Williams

Cael ci hapus ac ufudd

Nid oes fawr ddim sy'n fwy gwerth chweil na pan fydd rhywun yn dweud "Am gi ufudd sy' gynnoch chi."

Mae mynd am dro cymaint yn fwy o hwyl os bydd eich ci'n dod yn ôl atoch wrth gael ei alw ac nad yw'n tynnu ar y tennyn. Ffordd hwyliog i hyfforddi'ch ci a dysgu sut i'w gadw'n ddiddig ac yn iach yw Cynlluniau Cŵn Dinesydd Da'r Kennel Club.

Dyma rai awgrymiadau i feddwl amdanyn nhw:

- Bydd canmol eich ci bob tro y bydd yn dod yn ôl yn ei annog i ddychwelyd atoch yn syth pan fydd yn cael ei alw.
- Gall cŵn fynd yn anfodlon i ddychwelyd os byddant wedyn bob amser yn mynd yn ôl ar y tennyn i fynd adref. Felly, galwch eich ci'n ôl atoch am bethau mwy cyffrous hefyd, fel derbyn trit.
- Gall ymestyn tennyn y ci fod yn ffordd dda i adael i'ch ci gael mwy o ryddid, nes iddo gael ei hyfforddi i ddod yn ôl yn syth wrth gael ei alw. Gwnewch yn siŵr bod y tennyn yn cael ei gadw'n fyr ar ffyrdd, yn agos at anifeiliaid fferm, seiclwyr, pobl ar gefn ceffyl ac mewn ardaloedd bywyd gwyllt sensitif. Cofiwch fod adar sy'n nythu ar y ddaear sy'n agored i'w niweidio wedi'u cuddliwio'n dda – dydi'r ffaith na fedrwch eu gweld ddim yn golygu nad ydynt yno!
- Mae chwiban ci'n ffordd wych i gael sylw'ch ci ac iddo ddychwelyd atoch. Mae hefyd yn tynnu llai o sylw atoch chi gan roi mwy o gyfle i chi weld y bywyd gwyllt.
- Gwnewch yn siŵr bod eich ci'n mynd at y milfeddyg i gael archwiliad bob blwyddyn ac yn gyfredol o ran ei frechiadau a thriniaeth llyngyr.

Mynd am dro'n iach

Mae mynd â'ch ci am dro bob dydd yn ei gadw'n ddiddig ac yn iach, a gall wneud rhyfeddodau i'ch iechyd chithau hefyd. Gall cerdded am 30 munud yn unig bump neu ragor o weithiau bob wythnos, eich helpu i fyw'n hirach gan leihau perygl afiechyd y galon, diabetes, trawiadau, cryd cymalau a rhai canserau.

© CCGC, Gerallt Llywelyn

©Terry Whittacker, FLPA

Dyma rai syniadau i gael hyd yn oed mwy o fudd iechyd o fynd am dro â'ch ci

- er bod cerdded ar unrhyw gyflymdra'n gwneud lles i chi, mae brasgamu hyd yn oed yn fwy buddiol i'ch iechyd.
- gall cerdded gyda phobl eraill sy'n hoffi cŵn fod yn ffordd wych i fynd yn ffrindiau a chael cefnogaeth at yr adegau hynny pryd, er enghraifft, na fedrwch fynd allan am dro â'ch ci eich hun.
- os byddwch yn gyrru pellter byr i'r ardal lle y byddwch yn cerdded eich ci, beth am gerdded y rhan honno o'r siwrnai, yn enwedig os oes llwybr neu lôn sy'n rhydd o draffig y gellwch eu dilyn o'r tŷ.
- os ydych yn cerdded ger y traffig neu gyda'r nos, gall côt, coler a thennyn sy'n adlewyrchol neu'n fflachio fod yn fuddiol i helpu gyrwyr i'ch gweld.
- Gall menter Cyngor Cefn Gwlad Cymru 'Dilyn Llwybr Iechyd', eich helpu i gael mwy o'ch cerdded. Gall Cyngor Cefn Gwlad Cymru roi taflen wybodaeth i chi ac arweiniad Dechrau Cyflym. Rhowch gynnig ar ddefnyddio mesurydd camau i fesur pa mor bell rydych yn cerdded bob dydd

A beth bynnag a wnewch chi …

- Mwynhewch eich hwyl a sbri mewn man diogel, i ffwrdd o geir, anifeiliaid fferm, ardaloedd bywyd gwyllt sensitif… a phobl eraill efallai na fyddant yn rhannu'ch brwdfrydedd!
- Gall taflu ffyn achosi niwed ofnadwy i gŵn, yn lle hynny defnyddio tegan plastig, gwydn o siop anifeiliaid anwes, gan wneud yn siŵr ei fod yn ddigon mawr i beidio â chael ei lyncu.
- Dylech osgoi ymarfer eich ci am awr fan leiaf cyn neu ar ôl pryd o fwyd.
- Dylech osgoi trawiad gwres trwy wneud yn siŵr bod eich ci'n cael digon o gysgod a dŵr oer a glân.
- Peidiwch â gadael i'ch ci yfed unrhyw ddŵr nad yw'n edrych yn lân – gall fod yn wenwynig.
- Rhowch barch i arwyddion swyddogol sy'n gofyn i chi gadw'ch ci i ffwrdd o rai llynnoedd/afonydd a thraethau.

Byddwch yn barod

Bydd yr wybodaeth yma'n helpu mewn ambell argyfwng sy'n gallu codi pan fyddwch allan am dro yn ystod y munudau



Byddwch yn barod

"These tips will help you stay safe and do the best for your dog in an emergency"

cyntaf hynny cyn i chi gael cyngor gan filfeddyg.

Y ffordd orau i baratoi ar gyfer argyfwng meddygol ymlaen llaw yw trwy:

- fynychu cwrs cymorth cyntaf i anifeiliaid sy'n cael eu trefnu mewn colegau lleol a milfeddygfeydd.
- cario cit cymorth cyntaf syml i gŵn – gall hyn helpu pobl hefyd.
- dysgu sgiliau achub bywyd mewn cynllun hyfforddi cŵn Dinesydd Da y Kennel Club.
- cael yswiriant i'ch ci.

Damweiniau ffordd, toresgyrn a chael codwm

- peidiwch â chynhyrfu er mwyn peidio ag achosi panig.
- gwnewch yn siŵr nad ydych chi na'ch ci mewn unrhyw berygl pellach – cadwch y ci'n gynnes.
- os oes rhaid i chi symud y ci rhag perygl, dylech wneud hynny'n araf deg ac yn dringar. Os na all y ci gerdded, defnyddiwch gôt, bwrdd/styllen neu flanced fel elor.
- ceisiwch atal unrhyw waedlif o doriadau gan ddefnyddio pad a phwysau cadarn, gwasgwch o gwmpas unrhyw gorffynnau estron fel gwydr wedi'i dorri neu fetel – er mwyn osgoi eu gwthio ymhellach i mewn.
- gall cŵn ymddangos fel pe baent wedi'u parlysu ar ôl damwain difrifol, ond gall hyn fod yn rhywbeth dros dro. Peidiwch byth â rhagdybio bod anifail y tu hwnt i gymorth – dilynwch gyngor milfeddygol. Ni fydd anafiadau mewnol bob amser yn amlwg, cysylltwch â'ch milfeddyg yn syth os na fydd eich ci fel pe bai'n holliach o fewn 24 awr i'r ddamwain

Gwenwyno

Gall llawer iawn o gemegau amaethyddol a garddio fel plaleiddiaid, peledi gwlithod, hylifau glanhau, moddion a gwrthrewydd fod yn angheuol, felly peidiwch byth â gadael eich ci o'ch golwg na gadael iddo fwyta beth mae'n cael hyd iddo pan fydd allan am dro. Os ydych o'r farn bod eich ci wedi llyncu rhywbeth gwenwynig:

- ffoniwch y milfeddyg yn syth a chadw labeli'r cynhwysyddion neu samplau i helpu'r milfeddyg penderfynu ar y driniaeth orau.
- PEIDIWCH Â gwneud eich ci i fod yn sâl heb ymgynghori'n gyntaf â'r milfeddyg.

Trawiad Gwres

Mae hyn yn digwydd i gŵn wrth eu hymarfer mewn tywydd poeth neu wrth gael eu gadael mewn ceir ar ddiwrnod gweddol gynnes hyd yn oed. Bydd yn dyhyfod yn ormodol am wynt a gallant chwydu, llewygu neu gael ffitiau neu anhawster wrth anadlu. Os bydd trawiad gwres yn digwydd:

- cadwch y ci'n dawel. Dylech ei symud i'r cysgod, ystafell neu adeilad oer, neu'i roi yn ymyl gwyntell neu mewn awel.
- dylech oeri corff a phen y ci i gyd â dŵr, gan roi sylw arbennig i'r pen.
- Gadewch i'ch ci yfed ychydig ddŵr oer yn fynych. Galwch y milfeddyg

Pigiadau pryfed/gwenyn

Os bydd y pigiad wedi'i adael yn eich ci, dylech ei grafu ymaith â gewin eich bys neu gerdyn credyd; peidiwch â gwasgu neu afael ynddo. Oerwch y man â chadach gwlyb gwdyn pys wedi'i rewi i helpu lleihau'r boen a'r chwyddo. Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'ch milfeddyg.

Brathiadau gwiberod

Os bydd eich ci'n cael ei frathu gan wiber, dylech ei gadw'n llonydd ac mor ddigynnwrf ag y bo modd; peidiwch â gadael iddo gerdded. Dylech ei gario. Gadewch lonydd i anaf y brathiad, cysylltwch â'r milfeddyg yn syth.

Trogod

Rydych yn fwyaf tebygol i ddod ar draws y parasitiaid hyn sy'n gallu bod yn niweidiol yn y gwanwyn a'r hydref, yn enwedig mewn cynefin defaid a cheirw. Archwiliwch eich ci am drogod bob dydd. Maen nhw'n edrych fel pysen dywyll, lefn. Rhaid cael gwared â nhw'n syth gan eu bod yn gallu taenu afiechydon niweidiol. Ni ddylent gael eu gwasgu na'u tynnu i ffwrdd. Gofynnwch i'ch milfeddyg sut i gael gwared â nhw'n ddiogel.

Os bydd eich ci'n mynd ar goll

Os bydd eich ci'n mynd ar goll, mae'ch ci'n debygol o gael ei godi gan yr Heddlu, Warden Cŵn yr awdurdod lleol neu gorff lles neu achub anifeiliaid. Gall y bobl hyn ddarllen rhif microsglodyn y ci, ac felly'n gallu cysylltu â'r perchennog gan ddefnyddio cronfa ddata Petlog y Kennel Club, a hynny 365 diwrnod yn y flwyddyn. Ffyrdd eraill i helpu cael hyd iddo/i yw:

- ffonio Petlog yn syth os oes microsglodyn gan eich ci: 0870 606 6751;
- chwilio'r ardal lle y gwelsoch eich ci ddiwethaf;
- gadael eich manylion a llun/disgrifiad o'ch ci gyda chymaint o bobl ag y bo modd yn enwedig y rheini sy'n dosbarthu llythyrau, papurau newydd a llaeth;
- hysbysebu yn adran 'Ar Goll' eich papur newydd lleol – darllenwch yr hysbysebion 'Canfuwyd hefyd;
- galw'r milfeddyg lleol, gorsaf yr heddlu a'r warden cŵn;
- ymweld â chanolfannau lles ac achub anifeiliaid cyfagos. Gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych ym mhob corlan;
- galw gorsafoedd radio sy'n sôn am anifeiliaid anwes sydd wedi'u colli ac y cafwyd hyd iddyn nhw;
- ymweld â'r wefan: www.doglost.co.uk;
- codi posteri mewn siopau anifeiliaid anwes, milfeddygfeydd, tai bwyta, siopau a swyddfeydd post lleol;
- cadw ffotograff cyfredol o'ch ci yn y llyfryn hwn;
- peidio â chyfyngu'ch chwilio i un ardal fechan yn unig. Gall cŵn grwydro dros bellteroedd maith.

Mwy o help a gwybodaeth

"Rydych chi wedi cael llwyth o dips am sut i fwynhau cefn gwlad a'i gadw'n arbennig i bobl eraill. Ond os ydych yr un fath â fi, yn hoffi cŵn ac yn dotio at gefn gwlad, efallai y byddwch am wybod rhagor..."

Pobl a lleoedd

Y Kennel Club
Y lle cyntaf i chi alw ynglŷn â phob mater sy'n ymwneud â chŵn gan gynnwys clybiau hyfforddi Dinesydd Da, cymdeithasau achub, cyhoeddiadau, cyngor am fynediad, anrhegion a ffeithlenni. 0870 606 6750 www.the-kennel-club.org.uk

Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Gwybodaeth Mynediad
Cewch wybod lle y gellwch fynd a beth y gellwch ei wneud trwy fynd draw at www.ccw.gov/countrysideaccesswales. Mae Cod Cefn Gwlad ar gael am ddim trwy alw 0845 130 6229

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Ble i fynd beth i'w wneud a ble i aros yn y miliwn hectar o goedwigoedd sydd gennym yng Nghymru. Rhodfa Fuddug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2DQ. Ffôn: 01970 625866; Ffacs: 01970 625282. E-bost: fcwales@forestry.gsi.gov.uk. Gwefan: www.forestry.gov.uk

Bwrdd Croeso Cymru, Visit Wales.
Manylion atyniadau, llety a chludiant ledled Cymru, gyda manylion cyswllt ar gyfer canolfannau croeso lleol Ffôn: 08701 211351; Ffacs: 08701 211259. E-bost: info@visitwales.com. Gwefan: www.visitwales.com

Cerdded Llwybr Iechyd
Anogaeth, cyngor a chysylltiadau lleol i'ch cadw'n cerdded dros iechyd. Galwch Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Llinell Ymholiadau ar 0845 130 6229 neu ewch at www.clli.org.uk

Problemau mynediad

Am gyngor ynglŷn â llwybrau penodol a phroblemau'n ymwneud â mynediad cyhoeddus yn eich ardal, dylech gysylltu â'r awdurdod priffyrdd lleol, sef awdurdod unedol y cyngor sir, gan ddibynnu ar ble'r ydych yn byw. Bydd gan linell gymorth neu ganolfan wybodaeth leol y manylion cyswllt.

Eich cefnogi chi a'ch ci

Association of Pet Behaviour Counsellors
01386 751151 www.apbc.org.uk

Association of Pet Dog Trainers
01285 810811 www.apdt.co.uk

Assistance Dogs UK
01844 348 100 www.hearing-dogs.co.uk/assistance-dogs.html

Blue Cross
01993 822651 www.bluecross.org.uk

Dogs Trust
020 7837 0006 www.dogstrust.org.uk

RSPCA
0870 33 35 999 www.rspca.org.uk

PDSA
0800 917 2509 www.pdsa.org.uk
020 7837 0006 www.dogstrust.org.uk

RSPCA
0870 55 55 999 www.rspca.org.uk

PDSA
0800 917 2509 www.pdsa.org.uk

Cyflenwyr a gwasanaethau

Chwibanau cŵn: 01902 746329
www.reflog.co.uk

Gwasanaethau sy'n gyfeillgar i gŵn:
01525 878400 www.moto-way.com

Mypetstop: 0800 738800
www.mypetstop.co.uk

Siop lyfrau Our Dogs: 0870 731 6502
www.ourdogs.co.uk

Pets at home 0161 486 6688
www.petsathome.co.uk

Cael hyd i filfeddyg: www.rcvs.org.uk
www.any-uk-vet.co.uk

Yr Arolwg Ordnans
Ffôn: 0845 200 2712
www.ordnancesurvey.co.uk

Cysylltiadau brys:

Petlog: 0870 606 6751
www.petlog.org.uk

Cŵn ar goll: 01909 733366
www.doglost.co.uk

Cymorth â phrofedigaeth anifeiliaid anwes: 0800 096 6606
www.bluecross.org.uk

Llinell boeth ar gyfer llygredd a thipio anghyfreithlon
Ffôn: 0800 80 70 60

Llinell boeth ar gyfer gwenwyno bywyd gwyllt
Ffôn: 0800 321600

Rhoddir y cysylltiad hyn yn ddidwyll, er nad yw eu rhestru'n golygu cefnogi eu cynnwys, eu cyngor na'u gwasanaethau. Mae cyflenwyr eraill ar gael; dylech gysylltu â'r Kennel Club am fanylion

©Ashley Cooper, Woodfall Wild Images

The Countryside Code

- Byddwch yn ddiogel – cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Ewch â'ch sbwriel gartref, a gofalwch warchod bywyd gwyllt
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

Am gopïau ychwanegol o'r daflen hon neu am wybodaeth bellach am fynediad i gefn gwlad, cysylltwch â Chyngor Cefn Gwlad Cymru. (Prif Swyddfa), Maes-y-Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW. Ffôn: 0845 1306 229; Ffacs: 01248 355782. E-bost: ymholiadau@ccw.gov.uk Gwefan: www.ccw.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i gyhoeddi trwy bartneriaeth rhwng y Kennel Club, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Yr Asianraeth Cefn Gwlad ac English Nature.

CCC 230, 2005, 50k ISBN 1 86169 134 3 Argrafwyd gan: Zenith Media

©Andy Newman, Woodfall Wild Images